Taflen Cleifion
Amserau o'r Atgyfeirio i'r Driniaeth

Beth yw atgyfeiriad?

Bydd eich Meddyg Teulu, Deintydd, Offthalmolegydd neu aelod o staff gofal sylfaenol arall yn gwneud atgyfeiriad i ysbyty i chi am driniaeth arbenigol. Rydym yn eich annog i drafod y rhesymau am eich atgyfeiriad, eich opsiynau triniaeth posibl a'ch disgwyliadau.

Beth sy'n digwydd i'ch atgyfeiriad?

Bydd yr ysbyty yn rhoi gwybod i chi a'ch Meddygfa bod eich atgyfeiriad wedi ei dderbyn a bydd yn rhoi'r amser aros bras i chi ar gyfer eich apwyntiad. Byddwch yn cael llythyr cydnabyddiaeth a fydd yn amlinellu'r cam nesaf yn y broses. Ymhen amser, byddwch yn cael llythyr arall yn eich gwahodd i wneud apwyntiad claf allanol.

Beth yw eich rôl yn y broses atgyfeirio?

Bydd angen i chi sicrhau bod eich manylion cyswllt a'ch manylion personol yn gywir. Cedwir eich manylion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Beth yw rôl yr ysbyty wrth reoli eich atgyfeiriad?

Bydd yr ysbyty yn cynnig apwyntiad i chi o fewn y llinellau amser clinigol y gofynnwyd amdanynt gan yr ymgynghorydd arbenigol, ac o fewn yr amseroedd aros cenedlaethol. Gwneir pob ymdrech i gynnal eich apwyntiad yn eich ysbyty agosaf (yn dibynnu ar yr arbenigedd a'r amser aros). Rydym hefyd, fel Bwrdd Iechyd, yn anelu i chi aros yr amser byrraf posibl a allai arwain at apwyntiad mewn ysbyty arall.

Cewch gynnig yr apwyntiad sydd fwyaf addas i'ch gofynion. Ar adeg y cynnig, cewch gyfle i newid yr apwyntiad os nad yw'n addas.

Beth yw amserau aros?

Ein nod yw eich bod yn aros yr amser byrraf posibl ar gyfer eich triniaeth. Y prif dargedau amser aros a osodwyd gan GIG Cymru yw:

- 95% o bobl yn dechrau ar driniaeth o fewn 26 wythnos i'r atgyfeiriad
- 100% o bobl yn dechrau ar driniaeth o fewn 36 wythnos i'r atgyfeiriad

Sut mae amser aros yn cael ei gyfrifo?

Mae'r amser aros yn dechrau o'r amser y bydd yr ysbyty yn derbyn eich atgyfeiriad ac fel rheol yn dod i ben ar ddechrau unrhyw driniaeth angenrheidiol.

Gellir stopio'r amser aros am amryw o resymau. Gellir addasu'r amser aros os byddwch yn mynd yn sâl gyda chyflwr arall sy'n effeithio ar eich addasrwydd ar gyfer triniaeth. Os nad ydych chi'n addas am fwy na thair wythnos, cewch eich tynnu oddi ar y rhestr aros. Byddwch yn cael llythyr yn nodi'r rhesymau, ac yn cael canllawiau yn amlinellu sut i ddychwelyd i'r rhestr aros yn nes ymlaen.

Beth yw eich rôl wrth wneud apwyntiad ysbyty?

Oherwydd y galw am apwyntiadau ar draws gwahanol arbenigeddau, efallai y bydd dewis cyfyngedig o ddyddiadau ac amserau ar gyfer rhai arbenigeddau. Er y gwneir pob ymdrech i gytuno ar ddyddiad addas, bydd gofyn i chi fod yn hyblyg yn eich agwedd at gytuno i apwyntiad gan mai dim ond ar ddiwrnodau penodol y cynhelir rhai clinigau.

Ar ôl i chi gytuno ar eich apwyntiad, mae'n bwysig eich bod yn cadw at eich dyddiadau cytunedig. Gallai unrhyw newidiadau dilynol a wneir gennych chi arwain at aros hirach ac, os gwnewch chi fwy na dau newid, gallech gael eich cyfeirio yn ôl at eich Meddyg Teulu / Deintydd / Offthalmolegydd, a bydd eich amser aros yn cael ei stopio.

Beth sy'n digwydd os na allwch fynychu eich apwyntiad?

Bydd adegau pan na fydd yn bosib i chi fynychu'r dyddiad neu'r amser y cytunwyd arno. Os yw hyn yn wir, bydd angen i chi hysbysu'r ysbyty cyn gynted ag y bo modd, a threfnu dyddiad newydd. Byddwch yn aros ar y rhestr aros, ond bydd eich amser aros yn cael ei ailosod er mwyn adlewyrchu'r amser a gollwyd. Bydd yr addasiad hwn yn cael ei egluro i chi pan fyddwch yn ail-drefnu.

Os na fyddwch chi'n mynychu'ch apwyntiad ac heb hysbysu'r ysbyty o flaen llaw, fe'ch nodir fel 'heb fynychu'. Bydd hyn yn golygu eich bod yn cael eich cyfeirio yn ôl at eich Meddyg Teulu / Deintydd / Offthalmolegydd / aelod o staff gofal sylfaenol arall, a byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y rhestr aros. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir yn cael ei ddogfennu a'i rannu gyda chi a'ch Meddyg Teulu.

Beth sy'n digwydd os bydd yr ysbyty yn canslo eich apwyntiad?

Os bydd yn rhaid i'r ysbyty ganslo'ch apwyntiad, byddant yn cysylltu â chi i wneud apwyntiad arall cyn gynted ag y bo modd.

Beth yw eich rôl wrth aros am eich apwyntiad?

Rydym yn eich annog i ddilyn cyngor eich Meddyg Teulu bob amser. Dylech geisio cadw eich hun yn iach a chydymffurfio â chanllawiau unrhyw feddyginiaeth a ragnodir.

Os nad ydych chi am gael apwyntiad mwyach, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch Meddyg Teulu a'r ysbyty cyn gynted ag y bo modd. Bydd hyn yn caniatáu i adnoddau gwerthfawr y GIG gael eu defnyddio ar gyfer pobl eraill sydd angen apwyntiad.